# Y werin a'r byddigions: Gwaed yr Uchelwyr a diwylliant llên troad y ganrif

M. Wynn Thomas

*Adran Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Abertawe*

**Crynodeb:** Dadl greiddiol yr ysgrif yw y byddai'n werth gosod drama nodedig Saunders Lewis, *Gwaed yr Uchelwyr*, yng nghyd-destun nifer o nofelau Saesneg Cymru a gyhoeddwyd ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n ymdrin â pherthnasedd yr hen bendefigaeth i'r Gymru Newydd yr oedd mudiad Cymru Fydd yn ei hybu. Awgrymir y gall amgyffred y testunau hyn finiogi a chyfoethogi ein dehongliad o ddrama sy'n gynnil ac yn amwys iawn ei goblygiadau.

**Allweddeiriau:** Saunders Lewis, *Gwaed yr Uchelwyr*, Cymru Fydd, beirniadaeth lenyddol, pendefigaeth, Radicaliaeth.

## Ancient gentry and the modern nation: *Gwaed yr Uchelwyr* read in the light of anglophone Welsh fiction of the *Cymru Fydd* period

**Abstract:** The core argument of the essay is that it would be worth setting Saunders Lewis' important early play, *Gwaed yr Uchelwyr*, in the context of several anglophone Welsh novels published at the turn of the nineteenth century that sought to assess the relevance of the culture of the indigenous gentry of Wales to the new nation celebrated by the *Cymru Fydd* movement. It is argued that familiarity with these texts could assist us to grasp the subtlety and rich ambivalence of the play's ideological stance.

**Keywords:** Saunders Lewis, *Gwaed yr Uchelwyr*, *Cymru Fydd*, literary criticism, aristocracy, Radicalism.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

*Gwaed yr Uchelwyr*: y mae'n ddrama sydd wedi derbyn cryn dipyn o sylw gan mai hi oedd cynnig cyntaf Saunders Lewis ar gynhyrchu testun llwyfan yn y Gymraeg. O'r herwydd, mae ei ffynonellau, ynghyd â bwrdwn ei neges, yn hysbys ddigon erbyn hyn. Pam, felly, cychwyn drwy gyfeirio ati? Wel, yn fyr, am fod sawl gwedd ar y weledigaeth a fynegir ganddi yn nodweddiadol o ffrwd meddwl ymhlith carfan o ddeallusion ac awduron Cymru ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd, yn fy marn i, yn haeddu mwy o sylw nag a roddwyd iddi hyd yn hyn. Ac i ba gyfeiriad y'n dygir ni gan y ffrwd honno? I gyfeiriad y gred y byddai Cymru ar ei hennill o gael arweinwyr call, awdurdodol, ymroddgar, â'u bryd yn gyfan gwbl ar gynnal gwerthoedd eu cymdeithas a'u cenedl, ynghyd â'r argyhoeddiad pellach y dylid edrych i gyfeiriad yr hen bendefigaeth Gymreig am batrwm o arweinwyr anrhydeddus o'r fath.

Aeth yn arfer ers tro bellach i drafod dylanwad cydnabyddedig awduron Ffrengig megis Corneille a Barrés ar *Gwaed yr Uchelwyr*, ac i wneud yn fawr o ddyled hysbys Saunders Lewis i *Antigone*. Nid oes gwadu hynny, wrth gwrs. Ond bwriad amgen y drafodaeth hon, cyn diweddu, fydd trin y ddrama nid fel enghraifft o esthetig hynafol glasurol neu fel darn o gelfyddyd gyfandirol, ond yn hytrach fel enghraifft gymhleth, heriol o anghonfensiynol, o ideoleg a oedd yn fawr ei hapêl i rai carfannau o Gymry Cymraeg ac Eingl-Gymreig fel ei gilydd ar drothwy'r ugeinfed ganrif. Pam oedd yr ideoleg hon yn apelio? Yn rhannol, o leiaf, am ei bod yn cynnig rhith o waredigaeth; dihangfa ddeniadol o fywyd cyfoes cenedl a oedd yn cael ei ysgubo'n ddiymadferth gan gorwynt o weddnewidiadau chwyldroadol, a hynny ym mhob maes – economi, iaith, diwylliant, gwleidyddiaeth, crefydd. Wyneb yn wyneb â chynnwrf y presennol dryslyd o estron hwn, gofidiai llawer fod bwlch diadlam yn agor rhwng y Gymru newydd a'r hen Gymru yr oeddent yn dal i hiraethu am rai o'i phrif nodweddion: 'Hiraethu am ei dlysni mae'r awel ar ei hynt,/ Fel awen dyner Cymru Sydd am burdeb Cymru gynt'.[1]

'In our time,' meddai T. Stephens yn ofidus er enghraifft, mewn ysgrif a gyhoeddwyd yn Young Wales yn 1901, '*change is writ large on all things Welsh. We seem to have persuaded ourselves that to cease to change is to lose place in the great race*'.[2] O'r herwydd, y mae'n hiraethu am y cyfnodau tybiedig hynny yn y gorffennol pan na welwyd llawer o newid ym mhatrwm cymdeithas am ganrifoedd lawer. Ac fel enghraifft o'r sadrwydd hwnnw, y mae'n cynnig darlun euraidd 'of a Gentleman of Wales – a picture which may belong to any date from the eighth to the fifteenth century'. Gan ddyfynnu o destun Cymraeg wedi ei gyfieithu i'r Saesneg, mae'n rhestru tri deg a thair o nodweddion rhinweddus yr hen uchelwyr, gan ddechrau drwy nodi '*His house weatherproof,/ His homestead compact*', cyn mynd yn ei flaen i ganmol ei deulu, ei letygarwch, ei weision, ei dylwyth, ei gyfeillion, ei gi a'i hebog a'i ychen a'i ddefaid a'i foch, ei felin, ei eglwys, ei frenin, ei offeiriad a'i Dduw (79). Yng nghanol y darlun hwn o gyfanfyd delfrydol y mae'n sôn, wrth gwrs, am '*His bard learned,/ His harpist respectable*'. Ac er bod Stephens yn prysuro i bwysleisio pa mor gyntefig oedd 'moethusrwydd' buchedd yr hen uchelwr mewn gwirionedd o'i gymharu â bywydau ei

[1] Brifdir, 'Arferion Hirnos Gaiaf Cymru Gynt', *Cymru*, XI, 63 (1896), 182.
[2] Stephens, T. (1901), 'An Old-Time Gentleman of Wales', *Young Wales*, 7, 77–79.

ddarllenwyr cyfoes, y mae'n amlwg ddigon fod ar Stephens hiraeth am hirhoedledd dosbarth yr uchelwyr ac am warineb eu ffordd hwy o fyw.

Fel yr awgryma ysgrif Stephens, cri a glywyd yn gyson yn y cylchgronau oedd na fyddai'r un ddolen gyswllt gynhaliol maes o law rhwng Cymru Fu a Chymru Fydd. Mewn ymdrech i gau'r bwlch, hoeliai rhai awduron eu sylw ar y gobaith y medrai disgynyddion yr hen uchelwyr gynnig arweiniad i'r genedl fodern. Ai dyna yr oedd Saunders Lewis hefyd yn ei obeithio yn *Gwaed yr Uchelwyr*? Cyn ceisio ateb y cwestiwn hwnnw, mae'n rhaid sylwi i ddechrau ar ymdriniaeth rhai o awduron eraill y cyfnod â'r hen bendefigaeth Gymraeg.

* * * *

Ceir rhagolwg o'r pwnc mewn ysgrif gan J. Arthur Price a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Cymru Fydd* yn 1889.[3] Mae gan Price yr enw o fod yn un o ddeallusion mwyaf treiddgar ac anghonfensiynol mudiad Cymru Fydd, a hawdd deall pam ar ôl darllen yr erthygl nodweddiadol heriol hon. Ynddi y mae Price yn tanseilio'r dyb gyffredin ymhlith Rhyddfrydwyr a Thorïaid y cyfnod fel ei gilydd mai mudiad chwyldroadol oedd yr ymgyrch i sicrhau hawliau cenedlaethol i'r Cymry. Na, meddai Price, nid mudiad radical mohono o gwbl ond mudiad cadwriaethol y dylai'r Ceidwadwyr ei gefnogi ac y dylai Eglwys Loegr ei barchu. Nid y Chwyldro Ffrengig, gyda'i bwyslais ysgubol ar iawnderau'r unigolyn, oedd tarddle ymgyrchoedd cenedlaethol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, meddai Price ymhellach, gan wfftio tyb y Rhyddfrydwyr. Man cychwyn pob ymwybyddiaeth genedlaethol yn y cyfnod modern oedd gwrthryfel gwaedlyd y pobloedd dewr hynny, megis y Sbaenwyr, a wrthodasai fyw dan fawd Ffrainc gan fynnu annibyniaeth ac ymreolaeth.

Roedd yn gas gan Price y Chwyldro Ffrengig am ei fod yn ei ystyried yn fynegiant o athroniaeth ddinistriol deallusion Oes Oleuedig y ddeunawfed ganrif (Enlightenment/Aufklärung). Gan adleisio'r Eingl-Wyddel mawr hwnnw, Edmund Burke, awdur y clasur *Reflections on the Revolution in France*, dadleuai Price i athronwyr Ffrainc fwrw heibio pob parch at hanes, at draddodiad, at arferion hynafol ac at gwlwm cymdeithas er mwyn ymddiried yn gyfan gwbl yng ngallu unigolion i resymu drostynt eu hunan. O ganlyniad, difethwyd

> all historic institutions and ... the spirit which had created them. All ideas which owed their origin to historic growth, – in other words, the life, the feelings, the aspirations of the past, – were naturally odious to those who saw in all the past history of faith and heroism only the weary annals of folly, delusion, and bad taste. (426)

Fel y cawn weld, y mae Luned yn *Gwaed yr Uchelwyr* fel petai'n aralleirio'r datganiad hwn pan yw'n esbonio wrth ei chariad, Arthur Gwynn, mai blys am gyfleon y dyfodol yw ei gymhelliad ef ond mai teyrngarwch i hen werthoedd y gorffennol yw ei hysbrydoliaeth hi.

[3] Price, J. Arthur (1889), 'Welsh Nationalism and Revolutionary Politics', *Cymru Fydd*, II, 424–37.

Pa rym, felly, a allai wrthsefyll athrawiaeth ddinistriol newydd y Chwyldro Ffrengig? Nid grym democratiaeth, yw ateb J. Arthur Price, ac nid grym rhyddid ’chwaith. Dim ond cariad angerddol at hen hanes eu cenedl a fedrai danio dychymyg y Sbaenwyr a’u symbylu i frwydro, hyd at angau, dros eu rhyddid. Y mae gan y Cymry hwythau gariad tebyg at eu gwlad, meddai Price, cariad sy’n deillio o’u balchder yn hanes hynafol y genedl. Dros dro, yn unig, felly yr hudir y Cymry gan Radicaliaeth â’i bryd yn gyfan gwbl ar ffyniant yr unigolyn yn y presennol. Buan y’i gwelir yn hiraethu am werthoedd cymdeithasol eu gorffennol ac yn chwilio am ffyrdd i’w hadfer. Ac yn y cyd-destun hwn, awgryma Price y gall fod gan weddillion yr hen bendefigaeth Gymraeg ran i’w chwarae, dim ond i’r uchelwyr amlycaf roi’r gorau i’r awch am ymseisnigo a afaelasai ynddynt ers cyfnod y Ddeddf Uno, a dewis yn hytrach ddychwelyd o’r diwedd at eu gwreiddiau Cymreig:

> To suppose ... that the Welsh, in proportion as they develop their nationality, will do their best to dispense altogether with an upper class, or at least to ostracise it from public life, is at the best a rash, and to my mind, unhistorical presumption. No doubt the Welsh are a democratic people, but their democratic ideas are not inconsistent with a respect for ancient blood. The nation that is proud of the fact that, in its noble romance of a Welsh prince and his knights of the round table, it gave to Europe its medieval chivalry, cannot desire to emulate its social or political life to that of the United States of America, or to parody the vulgar democracy of modern Paris. It could be as soon expected to abolish the Eisteddfod, and to build an Eiffel Tower in the mountains of Merioneth. (434–5)

* * * *

Gobaith J. Arthur Price felly oedd y byddai modd i ddosbarth llywodraethol y Gymru gyfoes fanteisio rywsut ar y profiad cyfoethog oedd gan yr hen bendefigaeth o gynnig arweiniad i’r genedl. A choleddir yr un gobaith gan rai o nofelwyr Cymreig amlycaf ei gyfnod ef, gan gynnwys yr enwocaf ohonynt, Allen Raine. Ceir awgrym o hynny, er enghraifft, yn syth ar gychwyn ei nofel olaf, *Torn Sails*, lle y cyflwynir un o brif gymeriadau’r nofel, Hugh Morgan, i sylw’r darllenydd. Y mae Hugh Morgan yn uchel iawn ei barch ym mhentref bach glan-y-môr Mwntseison, yn rhannol am mai ef sydd yn berchen ar hanner y pentref ond hefyd oherwydd ei fod yn gymeriad nodedig o anrhydeddus. Cyflogir y mwyafrif o wŷr y pentref ganddo i gynhyrchu hwyliau, ac mae’n byw mewn tŷ ychydig yn fwy na’r gweddill sy’n llawn trugareddau hynafol cywrain – awgrym cryf fod ei deulu’n wreiddiol o dras uchelwrol:

> [there was an] old tradition afloat in the village, that his forefathers belonged to a different class from that in which he now lived.[4]

[4] Raine, Allen (dim dyddiad), *Torn Sails* (Kingston, Surrey: The Chapel River Press), t. 8.

Y mae'r pentrefwyr yn cydnabod ei ragoriaeth gymdeithasol yn reddfol ac yn talu gwrogaeth iddo'n gyson drwy gyfeirio ato fel 'Mishteer'. '*In Wales the landlord is still called "Master"*', meddai Allen Raine, gan ychwanegu'n finiog, '*and about the term hangs, in spite of modern and radical suggestions, a flavour of the old affection which once existed between landlord and tenant*' (TS, 7). Ergyd yw hon, wrth gwrs, i gyfeiriad 'radicaliaid' Rhyddfrydol y 'werin Anghydffurfiol' a oedd mor hoff, yn dilyn helyntion chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, o adrodd yr hanes 'arwrol' am wrthsafiad tenantiaid dewr yn erbyn gorthrwm eu landlordiaid estron. A hithau'n ffyddlon i Eglwys Loegr, roedd yn well gan Allen Raine amddiffyn agweddau gorau'r hen drefn osod na meithrin rhwygiadau oddi mewn i'w chymdeithas. Derbyniai fod mawr angen diwygio ond mynnai mai'r ffordd orau o wneud hynny oedd drwy gyfuno'r hen a'r newydd, a mynegir y weledigaeth hon ganddi dro ar ôl tro ar ffurf nofel.

Yn achos *Torn Sails*, ymgorfforir ei gobaith am adnewyddiad cymdeithasol cymodlon yn y berthynas rhwng Hugh Morgan ac Ivor Parry, y gŵr ifanc o gefndir cyffredin y mae Hugh yn ei hyfforddi'n fwriadus i'w olynu, gan adnabod ynddo'r gwerthoedd moesol a chymdeithasol anrhydeddus hynny y mae ef ei hun yn eu cynrychioli. Am gyfnod, tyf anghydfod anffodus rhyngddynt drwy fod Hugh, yn ddiarwybod ac felly'n gwbl anfwriadol, yn priodi cariad Ivor, Gwladys. Ond ar ôl i Hugh gael ei ladd mewn tân enbyd y mae Gwladys yn rhydd i briodi Ivor o'r diwedd, ac y mae ysbryd Hugh, yn ei dro, yn dyst bodlon i'w huniad. Yn y modd hwn, felly, sicrheir bod rhinweddau pennaf yr hen uchelwyr yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i arweinwyr cymdeithasol y Gymru newydd.

Yr un yw neges gymdeithasol *Under the Thatch* yn y bôn, eithr y tro hwn, arwyddir uno'r hen a'r newydd ar ddiwedd y nofel gan briodas rhwng cynrychiolydd yr hen bendefigaeth sydd wedi gweld dyddiau gwell a chynrychiolydd y dosbarth newydd deinamig a esgynnodd o rengoedd y werin. Ond cyn y gall hi gytuno i briodi Michael Lloyd, mab ifanc hen felinydd sydd wedi ei hyfforddi yn Llundain i fod yn arbenigwr meddygol disglair, y mae'n rhaid i Barbara Owen, disgynnydd hen deulu uchelwrol, ddiosg ei balchder yn ei thras. A gwneir yn fawr yn y nofel hon drwyddi o'r perchentyaeth a oedd yn arfer nodweddu dosbarth yr uchelwyr. 'Ei dŷ,' meddai Dafydd Johnston, 'oedd yr arwydd gweledol o statws uchelwr a chanolbwynt ei fywyd cymdeithasol',[5] ac wrth i rai o'r uchelwyr ymelwa o'r drefn Seisnig a ddaethai yn sgil Deddf Uno 1536, dechreuasant ddynwared aristocratiaid Lloegr a phrynu plasau sylweddol.

Plas felly yw 'Caefrân', cartref Barbara a'i brawd, ond am ei fod yn rhy fawr ac yn rhy ddrud i'w gynnal y mae'n rhaid i'r ddau roi'r gorau i fyw ynddo a chwilio am loches yn y bwthyn sylweddol sydd ynghlwm wrth y felin lle y mae Phil, tad Michael, yn felinydd. Yn gyfleus ddigon, mae'r melinydd yn datgelu yr arferai'r tŷ to cawn hwn fod yn un o 'blasau' gwerinol yr hen uchelwyr – 'Plas Meivon', cartref 'Madam Hughes'[6] – ac mae'n cynnig adfer darn sylweddol ohono i'w gyflwr gwreiddiol, gyda golwg ar ddarparu cartref clyd priodol ar

[5] Johnston, Dafydd (2005), *Llên yr Uchelwyr* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 4.
[6] Raine, Allen (1920), *Under the Thatch* (London: Hutchinson and Co), t. 127.

gyfer Barbara a'i brawd. Ar ddiwedd y nofel, wrth gwrs, y mae Barbara a Michael ar fin meddiannu'r tŷ cyfan, gan awgrymu bod dosbarth canol newydd Cymru am fabwysiadu hen ddull yr uchelwyr o fyw ac am efelychu eu gofal traddodiadol hwy am eu cymdeithas. At hynny, mae'n ymddangos fod Michael yn dymuno siarad Cymraeg â'r ardalwyr, fel yn y dyddiau gynt.

* * * *

Nid dim ond ambell nofelydd Saesneg o Gymru, megis Allen Raine, oedd yn breuddwydio am uniad yr hen uchelwyr a'r dosbarth llywodraethol newydd. Dyna ddyhead Gwyneth Vaughan yn ogystal, yn ei dwy nofel nodedig, *O Gorlannau'r Defaid* a *Plant y Gorthrwm*. Cyfeiriwyd ynghynt at ofid dybryd rhai carfannau'r cyfnod na fyddai'r Gymru newydd yn rhannu'r un gwerthoedd â'r hen gymdeithas ddiflanedig Gymraeg, a thanlinellir y gofid hwnnw'n syth yn y Rhagymadrodd i *O Gorlannau'r Defaid*. 'Nid wyf fi'n honni dim iddi,' meddai Gwyneth Vaughan am ei nofel, 'ond ei bod yn iach a phur, yn Gymreig hollol ei nodweddion, yn amcanu at gadw ambell rai o'r pethau a eilw'r Doethor John Rhys yn *vanishing landmarks* ar gof a chadw, ac yn ddarlun lled gywir o fywyd duwiol y rhai annwyl y bu eu cartref yn "borth y nefoedd" i bawb a drigai ynddo.'[7] 'Ychydig iawn o rodres ein dyddiau ni oedd yn bod yr amser hwnnw,' meddai ymhellach yn y bennod gyntaf. 'Nid oedd gwanc am arian a bywyd moethus wedi meddiannu ein tadau ... Rhyfedd fel y mae Cymru fechan wedi newid.' (*OGD,* tt. 10–11)

Ar ganol y nofel ceir gwrthgyferbyniad rhwng dau dŷ sylweddol sy'n arwyddo dau fath o bendefigaeth sydd i'r gwrthwyneb i'w gilydd. 'Cae Morfudd' yw un, plas crand Syr Wiliam Prys a'i deulu. Efe yw bonheddwr mwyaf yr ardal ac er mor hoffus yw ei gynhesrwydd tuag at yr ardalwyr, ac er mor annwyl o ddoniol yw ei ddefnydd teyrngar carbwl o'r iaith Gymraeg, gwneir yn glir ei fod ef a'i deulu oeraidd, yn y bôn, â'u bryd yn gyfan gwbl ar statws, tir, arian ac eiddo. Awgrymir ymhellach fod hyn yn gydnaws â'r ffaith mai dim ond dwy ganrif ynghynt y dyrchafwyd y teulu i rwysg a bri'r dosbarth aristocrataidd yn Lloegr. Gwahanol iawn yw hanes perchnogion yr hen blasdy arall, Y Neuadd, a fu'n gartref i hen deulu cynhenid Cymreig a Chymraeg y Wyniaid ers canrifoedd lawer:

> Digon bychan oedd o'i gymharu â'r plastai a adeiledir gan gyfoethogion undydd unnos er mwyn dangos eu golud i'w haddolwyr, a heb un tebygrwydd arall ynddo i'r trigfannau hyny chwaith. Yr oedd i bob ystafell hynafol yn y Neuadd – gyda'r dodrefn derw na wyddai neb eu hoedran, gan nad oedd eu blynyddoedd wedi hagru dim ar harddwch eu gwedd – ryw genadwri oddi wrth oesau a fu i'w sibrwd i'n clustiau. (*OGD,* t. 164)

Er i'r Neuadd syrthio drwy ddichell i afael dwylo estron am gyfnod, erbyn i'r stori ddirwyn i'w therfyn y mae hen blasdy'r uchelwyr yn ei ôl yng ngofal ei briod berchnogion. Ar

[7] Vaughan, Gwyneth (1905), *O Gorlannau'r Defaid* (Wrecsam: Gwasg Gee), Rhagymadrodd. (OGD)

ddechrau'r nofel dim ond bugail cyffredin yw Dewi, y gŵr ifanc a fydd yn adfeddiannu'r plas, ond hyd yn oed bryd hynny fe 'wyddai pawb fod gwaed tywysogion Cymru Fu yn rhedeg [yn ei wythiennau], tra nad oedd teulu Syr Wiliam yn gallu olrhain eu hachau fawr dros ddau gan mlynedd' (*OGD,* t. 95). Ac erbyn i Dewi ymgartrefu yn y Neuadd ar ddiwedd y nofel y mae wedi datblygu i fod yn bregethwr Methodistaidd duwiol. Yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol, mae hynny'n ddatblygiad hynod arwyddocaol am ei fod yn dynodi gobaith Gwyneth Vaughan, yn wyneb y gofid enbyd am newid byd a nodwyd uchod, y bydd arweinwyr y Gymru Anghydffurfiol newydd yn mabwysiadu gwerthoedd moesol ac yn ysgwyddo cyfrifoldebau cymdeithasol yr hen ddosbarth Cymraeg o uchelwyr.

Neges nid annhebyg a ymgorfforir yn ail nofel Gwyneth Vaughan, *Plant y Gorthrwm.* Yma, eto, gwrthgyferbynnir dau deulu bonheddig, a hynny'n rhannol drwy bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng dau blasdy. Hen blasdy croesawgar, cartrefol yw Y Friog, cartref priodol iawn ar gyfer yr hen uchelwr gwerinol Syr Tudur Llwyd a '[d]reuliai lawer iawn o'i amser ymysg ei bobl'.[8] 'Yr oedd boneddigrwydd a moesgarwch yn anwahanol gysylltiedig â bodolaeth Syr Tudur Llwyd, a theimlai pawb dan ei gronglwyd ef yn berffaith gartrefol ar unwaith.' (*PG,* t. 75) Mawr yw consyrn Syr Tudur am ei denantiaid, yn gwbl groes i agwedd perchnogion ffroenuchel Plas Dolau. Y maent hwy yn perthyn i'r dosbarth hwnnw o uchelwyr a ddisgrifir fel a ganlyn gan Gwyneth Vaughan:

> Hannai llawer o'r tirfeddianwyr o hen deuluoedd Cymreig, ond ni fynnai y mwyafrif ohonynt gydnabod y graig y'u naddwyd o honi, ac ystyrient y fraint o loddesta oddeutu Llys Sant Iago yn y brif ddinas yn fwy ei gwerth iddynt hwy, na meithrin hen draddodiadau gwych eu cenedl eu hunain. (*PG,* 110–11)

Arferai'r rhain sefyll ysgwydd wrth ysgwydd, meddai Vaughan ymhellach, â'r '*self-made men*' ariannog o Loegr, y 'crach-foneddigion' a oedd wedi prynu tiroedd yng Nghymru ac a ddisgwyliai i'r Cymry foesymgrymu iddynt.

Am eu bod yn treulio eu hamser i gyd oddi cartref, y mae teulu bonheddig Plas Dolau wedi penodi goruchwyliwr gormesol (Mr Harris) i ofalu bod eu tenantiaid yn talu crocbris o rent am yr hawl cyfreithiol i ffermio eu tiroedd. A phan yw'r tenantiaid hynny'n bwrw pleidlais am y tro cyntaf, yn sgil Deddf Ddiwygio 1868, ac yn gweithredu'n groes i ewyllys teulu'r Plas, dyma Mr Harris yn cael gorchymyn i'w troi allan o'u cartrefi'n syth. Y mae teulu duwiol, dedwydd, fferm lewyrchus Hafod Olau ymhlith y dioddefwyr mwyaf, ac yn sgil yr ergyd enbyd hwn y mae pennaeth y teulu, y gwerinwr parchus Robat Gruffydd, yn marw'n ifanc gan adael gweddw a dwy ferch yn ddiymgeledd ar ei ôl. Ymateb trugarog Syr Tudur Llwyd i argyfwng y teulu bach yw cynnig priodi Rhianon, y ferch hynaf, gyda golwg ar sicrhau cartref newydd iddi hi, ynghyd â'i mam a'i chwaer, yn Y Friog.

Y mae hithau'n derbyn ei gynnig, yn bennaf er mwyn sicrhau noddfa i'w theulu, ac

---

[8] Gwyneth Vaughan (1908), *Plant y Gorthrwm* (Cardiff: The Educational Publishing Company, t. 12. (PG)

y mae'r briodas yn ddigon diddig, o ystyried fod bwlch enfawr o ddeugain mlynedd yn gwahanu 'Lady Llwyd' a'i gŵr. Arwydd yw'r ieuo anghymarus hwn efallai o farn yr awdur, Gwyneth Vaughan, fod hen ddosbarth yr uchelwyr yn prysur dynnu at ei derfyn, ac mai gorau po gyntaf felly y trosglwyddir y gwerthoedd a ddiogelir ganddo i ofal arweinyddion ifainc y Gymru gyfoes. I'r perwyl hwnnw, y mae Vaughan yn pwysleisio ymhellach nad yr hynafgwr Syr Tudur sy'n cynnig arweiniad i'w wraig ifanc, ond yn hytrach Rhianon sy'n arfer doethineb ac yn amlygu ei haeddfedrwydd drwy ddysgu ei gŵr sut i barchu ac i gefnogi – yn gwbl groes i arfer ei ddosbarth – genhadaeth wleidyddol y to ifanc o wleidyddion Rhyddfrydol. Yn gyfleus ddigon, y mae Syr Tudur yn marw'n annisgwyl ar ddiwedd y nofel, gan adael Rhianon yn rhydd, o'r diwedd, i briodi ei gwir gariad, y bonheddwr ifanc eangfrydig Francis Glyn – priodas sy'n awgrymu y gwelir hen werthoedd dosbarth yr uchelwyr Cymreig yn cael eu mabwysiadu gan do newydd o arweinwyr cymdeithasol a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu haddasu at ddibenion oes newydd, yn union fel y sicrhaodd Rhianon fod Syr Tudur, yn ei hen ddyddiau, yn newid o fod yn 'Tori' i fod yn Rhyddfrydwr.

* * * *

Ymhlyg ym mhob enghraifft a ystyriwyd hyd yn hyn y mae'r gred sylfaenol mai'r werin bobl bellach yw gwir etifeddion y gwerthoedd diwylliannol a gwleidyddol cynhenid Gymreig a gafodd eu meithrin yn wreiddiol gan y dosbarth uchelwrol. Seiliwyd y dyb allweddol hon, wrth gwrs, ar ddarlun euraidd, cwbl anhanesyddol, o'r hen bendefigaeth – darlun y gosododd hyd yn oed O. M. Edwards sêl ei fendith arno:

> Hyfryd yw meddwl fod prif dywysogion Cymry ymhob oes wedi bod yn gefn i ryddid pa le bynnag y caent gyfle, ac wedi amddiffyn y di-amddiffyn a'r tlawd. Aberthodd Llywelyn ei fywyd, ac aberthodd Cymru ei hanibyniaeth gydag ef, er mwyn amddiffyn mynyddwyr a dyffrynwyr gorthrymedig Rhos a Rhufoniog. A thaflodd Glyn Dŵr, a miloedd gydag ef, eu hunain i'r ymdrech o blaid y llafurwyr yn bennaf.[9]

O dderbyn hyn, hawdd wedyn dadlau ymhellach fod dolen gyswllt naturiol – o'r math a ddynodir ar ffurf priodas yn nofelau Gwyneth Vaughan ac Allen Raine – rhwng pendefigaeth Cymru Fu a'r arweinwyr crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol disglair a gynhyrchwyd gan y werin ei hun yng nghyfnod Cymru Fydd.

Ymhellach, tybiai'r werin gyffredin ei bod hi'n llwyr deilyngu'r parch a dderbyniai ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, am ei bod wedi parhau'n ffyddlon i'w gwlad ar hyd y canrifoedd hynny yn dilyn pasio'r Ddeddf Uno, pan oedd y mwyafrif o foneddigion Cymru wedi cefnu ar eu gwlad gan heidio i Lundain a phrysuro i ymseisnigo. Gwelwyd canlyniad y 'brad' hwn yn glir ar adeg Gwrthryfel y Jacobitiaid yn 1745, fel yr adroddir gan W. Llewelyn

[9] *Cymru*, 11 (1890), 102.

Williams yn ei gerdd '*Waiting for Sir Watkin: David Morgan, the Welsh Jacobite, speaks the night before his execution*'.[10] Gobaith David Morgan ar adeg y gwrthryfel oedd y byddai Sir Watkin Williams-Wynn, tirfeddiannwr mwyaf Cymru ac arweinydd Cylch y Rhosyn Gwyn (y brif garfan yn Lloegr a oedd wedi cynllwynio i ddiorseddu'r brenin Sior yr Ail a choroni Siarl Stuart), yn ymuno yn y gwrthgodiad.

> The gallant Prince in Wales, land of unencumbered dales,
> Would surely meet us there with thrice three thousand men;
> Once more from hill and vale the Cymro and the Gael
> Would join in bravely fighting for country and for King. (*YW*, 187)

Ond ofer fu'r gobaith, ac ar yr un gwynt y mae'r carcharor yn diawlio '*the laggard lord that broke his plighted word*' ac yn cywilyddio dros Gymru; '*Shame for our gallant country that never would be free*'. Ac wrth sylweddoli nad oes gan Gymru bellach ddosbarth o uchelwyr gwlatgar i'w harwain, mae David Morgan yn penderfynu edrych i gyfeiriad gwahanol o hyn ymlaen: '*In Cavalier homes we'll seek, among the poor and weak,/ For worthier chiefs to lead the united Cymric Clan*'.

Roedd y fersiwn hwn o hanes at ddant Owen Rhoscomyl, un o gymeriadau mwyaf lliwgar holl hanes Cymru.[11] Cenhadaeth Rhoscomyl oedd dihuno Cymru o'i thrwmgwsg. Roedd yn gas ganddo'r taeogrwydd a oedd yn ei hatal rhag gwneud ei chyfraniad priodol at yr Ymerodraeth Brydeinig, ac un nodwedd arbennig o'r ofnusrwydd hwnnw oedd parodrwydd y Cymry i dderbyn barn ddylanwadol Matthew Arnold mai 'Celtiaid' hydeiml breuddwydiol oeddynt, ac felly na fedrent ddioddef berw brwydrau gwrywol byd masnach, gwleidyddiaeth a maes y gad. Ymdrechai Rhoscomyl i atgoffa'r Cymry o'u hanes fel rhyfelwyr, ac yn lle'r ddelwedd hunanfodlon, boblogaidd o'r werin dduwiol, lonydd, ceisiodd osod y cof am genedl o ymladdwyr dewr. Prif ddiffyg y Cymry, yn ei farn ef, oedd diffyg dosbarth pendefigaidd o arweinwyr a oedd yn wir falch o'u tras cenedlaethol, yn null aristocratiaid Iwerddon a'r Alban:

> The upper class Welshman has ... largely lent himself to the Anglicising policy of the government. It might have been very different had things fallen out as certain of the Jacobite leaders desired ... Wales would have risen to the Stuarts, and, in the bloodshed and suffering which must have followed the stamping out of the rebellion, had it failed; or in the honour which would have followed its success, had it succeeded; the Welshman as such would again have cut that figure which his ancestor first created in Tudor times. It would have been an honour to be a Welsh gentlemen, and the privilege would have been as strenuously upheld as the Scots or Irish gentleman of today upholds his.[12]

---

[10] *Young Wales*, 7 (1901), 187.
[11] Ellis, John (2017), *Owen Rhoscomyl* (Cardiff: University of Wales Press).
[12] *Young Wales*, 5 (1899), 52.

Manteisiai Rhoscomyl ar bob cyfle i daenu ei neges ar led, gan gynnwys cynhyrchu Pasiant Cenedlaethol rhwysgfawr Cymru yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, yn 1909. Gan ei fod yn awdur medrus, yn ogystal ag yn wrol ryfelwr go-iawn, ysgrifennodd sawl nofel yn ymdrin â'i athroniaeth. A'r fwyaf diddorol ohonynt yn ddi-os yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol yw *Old Fireproof,* clamp o ramant yn null awduron antur poblogaidd y cyfnod megis Rider Haggard. Seiliwyd y nofel antur ar brofiadau hynod gyffrous Rhoscomyl ei hun pan oedd yn ymladd yn Ne Affrig gyda charfan o filwyr afreolaidd (*irregulars*) yn y Rhyfel yn erbyn y Boeriaid.

Eto fyth yn y nofel hon, gwrthgyferbynnir dau dŷ mawr er mwyn gwahaniaethu rhwng dau ddosbarth gwahanol o wŷr bonedd. Cartref pobl ddŵad yw 'Vron Aig' – estroniaid â digon o arian ganddynt i godi '*a fancy-built modern mansion, one that would need some thousands a year to keep it going by the look of it*'.[13] Perchennog presennol y plasty haerllug hwn yw gweddw ifanc y mae ei balchder ffroenuchel yn costio'n ddrud iddi, am o'r herwydd y mae'n colli serch ei gwir gariad. 'Old Fireproof', awdur y nofel, yw hwnnw, ymladdwr heb ei ail sy'n cael ei eilun-addoli gan y dynion y mae'n eu harwain mewn nifer o gyrchoedd peryglus yn erbyn y gelyn ar wastadeddau'r *veldt* uchel. Am fod Old Fireproof yn ddisgynnydd balch un o hen deuluoedd uchelwrol Cymru, y mae'n dod i ddirmygu ymdrechion ystrywgar y weddw ifanc i dorri ei grib ac i'w feistroli. Ac fel y gellir disgwyl, plasty gwahanol iawn i 'Vron Aig' yw cartref hynafol Old Fireproof. Tŷ ydyw y mae ei leoliad a'i bensaernïaeth fel ei gilydd yn awgrymu bod yr adeilad hwn yn garn o hanes hen:

> It was ... the picture of an old-looking house in wild-looking grounds, set where there were a few level acres between the mountains and the sea, for bush and tree and ivied rock and precipice went straight up behind the house, and a curve of the coast, showing the edge of the sea, lay in front of it a few fields' breadth away. (*OF*, t. 77)

'Llys Rono' yw ei enw, ac mae'r dirwedd wyllt y saif ynddi'n awgrymu, wrth gwrs, nad yw'r perchennog brodorol chwaith eto wedi ei ddofi.

Tua diwedd y nofel, y mae Old Fireproof yn priodi – yn union fel y gwnaethai Rhoscomyl ei hun – merch o genedl y Boeriaid y daethai ar ei thraws wrth arwain cyrch dirgel mentrus yn ddwfn yn nhiroedd y gelyn. Ac ar ôl iddo gael ei glwyfo'n angheuol, y mae'n marw yn y ffydd y bydd y mab bach a aned o'r briodas nid yn unig yn sicrhau parhad ei linach hen ond hefyd yn gwireddu breuddwyd 'uchelwrol' ei dad y gwelir Cymru'n deffro o'i thrwmgwsg ac yn cymryd ei phriod le ar flaen y gad yn ymdrechion yr Ymerodraeth Brydeinig i ledaenu rhyddid a chyfiawnder ar draws yr hollfyd. Yn arwydd o hyn, yr oedd Old Fireproof wedi gosod bidog noeth yng nghrud y babi, gan orfoleddu bod y bychan wedi gafael ynddo'n eofn:

> '"*Gwell angeu nag ovn,*"' I said. '"Better death than fear." Son! little son! fourteen hundred and fifty years your ancestors are known, from father

[13] Rhoscomyl, Owen (1906), *Old Fireproof* (London: Duckworth & Co), t. 78.

> to father back to that king of the Picts who drove Vortigern to calling in the Saxons to help him. And from son to son, all down the five and forty generations before you, every one of them has closed his grip on the steel the moment it was laid near him in the hour that he was born.' (*OF*, t. 364)

Er mwyn tanlinellu hyn, y mae 'Old Fireproof,' yn null dihafal y ffantasïwr Owen Rhoscomyl ei hunan, yn honni bod hen ddeddfau'r Cymry yn mynnu bod pob bachgenyn uchelwrol yn gorfod gadael ei deulu pan fo'n bedair ar ddeg mlwydd oed er mwyn cael ei hyfforddi am saith mlynedd dan gyfarwyddyd arglwydd y llwyth i fod yn filwr. '*No wonder*,' meddai Old Fireproof, '*that the nation never could be rooted out, in spite of all the armies that came in endless clouds to do it. And that's my ideal still.*' (*OF,* t. 364)

* * * *

Awdur arall a chanddo ddiddordeb byw mewn adfer yr hen bendefigaeth er lles y Gymru newydd gyfoes oedd yr hynod 'Mallt' Williams, a cheir mynegiant o'i gweledigaeth yn *A Maid of Cymru,* rhamant chwerthinllyd o ffantasïol sydd, serch hynny, yn ddogfen hanesyddol eithriadol ddadlennol.[14] Arwres y stori yw'r 'Maid of Cymru' ei hun, Tangwystl Hywel, merch danbaid o wladgarol na fynn briodi'r undyn nad yw'n Gymro glân, gloyw, er mwyn sicrhau purdeb yr hil, dyfodol yr iaith a chyfoeth y diwylliant brodorol. Y mae gweithwyr cyffredin gweithfeydd glo, haearn a dur a chwarelwyr yr ardal ddiwydiannol y mae Tangwystl yn byw ynddi'n cyfeirio'n barchus ati fel 'y Foneddiges', a gwrthgyferbynnir ei theyrngarwch bonheddig i Gymru ag agwedd ddirmygus 'Madame Lloyd' (menyw estron sy'n aelod o ddosbarth uchelwrol Lloegr) at y 'brodorion' cyntefig lleol.

Hoff ŵyl Tangwystl yw'r Eisteddfod, lle y gall wisgo amdani wisg 'hynafol' urddasol:

> a red robe (the favourite colour of Cymru fu) of some soft woollen material ... and a striped ribbon of the three bardic colours – blue, white and green. (*MC,* t. 38)

Yno hefyd y gall chwarae ei hoff offeryn, sef y delyn daeres Gymreig. Ac yn yr Eisteddfod ymhellach y mae'n medru ymddwyn fel aelod o hen bendefigaeth Cymru:

> To her own consciousness, she was no longer simple Tangwystl Hywel. Rather at that moment she was a daughter of the princely House of Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr welcoming the bards and harpists to that Royal Eisteddfod which lasted for forty days under the green oaks of Ystrad Tywi. (*MC,* t. 38)

[14] 'Y Ddau Wynne' (h.y. Mallt Williams) (1901), 'A Maid of Cymru', *Young Wales*, 7, 38, 58, 80, 112, 130, 154, 182, 204, 239, 272.

Am fod Tangwystl yn y stori hon yn ddolen gyswllt bwysig rhwng y Gymru fodern a thraddodiad yr hen uchelwyr, y mae'n medru cyflawni dwy swyddogaeth allweddol. Yn gyntaf, y mae'n medru atal streic gan y gweithwyr a allasai fod wedi arwain at wrthdaro gwaedlyd rhyngddynt a'r milwyr Saesneg a fuasai siwr o fod wedi cael eu gyrru i'r ardal gan y llywodraeth. A dull Tangwystl o atal y terfysg yw trefnu ei bod hi'n canu rhai o hen alawon Cymru i'r dorf anystywallt i gyfeiliant telyn y mae hen delynor dall yn ei chwarae. Mae'n amlwg fod yr olygfa ddoniol o amhosibl hon yn ddameg ar ei hyd, am ei bod hi'n dynodi'n glir gobaith ofer Mallt Williams a'i thebyg y gellir ffrwyno holl egnïoedd bygythiol y dosbarth gweithiol newydd afreolus drwy atgoffa'r gweithwyr o werthoedd gwâr tybiedig 'Cymru Fu'.

Camp wyrthiol arall Tangwystl Hywel yw dad-Seisnigo 'Hoel Cadwgan', un o wŷr bonheddig y Gymru newydd, drwy ei berswadio i ddysgu Cymraeg ac i ymdrwytho yn nhraddodiad llên Cymru. Yn y modd hwn y mae hi, i bob pwrpas, yn gwneud 'uchelwr' Cymraeg ohono.

> And as she looked at him, tall-statured, as the men of Merlin's country are, with his stately bearing and eagle eyes, that had never feared the gaze of any man, a great wave of pride swept over her. Here, in this representative of an old, proud line, was material fit even for Cymru to accept with readiness. She had wakened in him that love of race and country that lies latent even in the most Anglicised of Cymru's sons, so by that he is of the gwaed coch cyfan. She had given him who had drifted purposeless as a rudderless boat on the Ocean of Time a new interest in life. Because a great sympathy lay between them, her words, her acts, her ideals, had first moved, then won him. (*MC,* t. 256)

Y mae Hoel Cadwgan, yn ei dro, yn gwneud cymwynas enfawr â Tangwystl drwy sicrhau nad yw Elormeirch, ei chartref sylweddol hi a'i brawd, yn cwympo, drwy ddichell, i ddwylo'r Sais uchelwrol, yr Arglwydd Entwistle. Ac wrth gwrs, diwedd y stori yw bod Cadwgan yn priodi Tangwystl.

Un dylanwad ar obaith Mallt Williams o adfer hen bendefigaeth Cymru i'w phriod le fel arweinydd y gymdeithas oedd ei phrofiad o'r rhan a chwaraewyd gan rai o aristocratiaid Iwerddon yn y mudiad pan-Geltaidd yr oedd hi mor frwd o'i blaid. Yn ei hadroddiad am y Gyngres Ban-Geltaidd a gynhaliwyd yn Nulyn yn Awst, 1901, er enghraifft, fe ddywed: '*In a brilliant speech, the President, Lord Castletown of Ossory (MacGiolla Phadring), opened the Congress*'.[15]

* * * *

[15] 'Y Ddau Wynne' (1901), 'Celtia's Congress', *Young Wales*, 7, 231.

Fel y dengys y drafodaeth uchod, felly, yr oedd corff o waith eisoes yn bod yn y Gymraeg ac yn y Saesneg a oedd yn mawrygu traddodiad yr uchelwyr cyn i Saunders Lewis fynd ati i lunio ei fersiwn afaelgar ef ei hun o'r etifeddiaeth goll honno yn *Gwaed yr Uchelwyr.* Ac o ystyried y ddrama yn y cyswllt arbennig hwn, gwelwn debygrwydd diddorol rhyngddi ar sawl cyfrif a nifer o'r ymdriniaethau blaenorol, ond sylwn hefyd ei bod hi'n bur wahanol iddynt, yn enwedig am ei bod hi'n mynnu mentro i eithafion ar y diwedd a hynny, mae'n debyg, am fod Saunders Lewis mor awyddus i osgoi cyfaddawdu â threfn osod ei gymdeithas. Yn ei olygiad safonol o'r testun, y mae Ioan Williams yn gosod y ddrama'n dreiddgar o gyflawn yn ei chyd-destunau hanesyddol amlweddog. Dengys yn glir ei bod hi'n ymgais i ymwrthod â'r pwyslais ar hawliau'r unigolyn a nodweddai Ramantiaeth a Rhyddfrydiaeth fel ei gilydd, yn rhannol am fod yr ideolegau hynny'n arwain yn anorfod, ar gychwyn yr ugeinfed ganrif, at dranc y diwylliant Cymraeg yn sgil hunan-les a ffyniant materol personol. At hynny, roedd hi hefyd yn amlwg, yn nhyb Saunders Lewis, mai gwir ddyhead y 'werin', y tybiwyd gyhyd ei bod hi mor rinweddus o dduwiol ac mor bur ei buchedd, oedd llwyddiant economaidd a dyrchafiad cymdeithasol, a hynny ar draul y Gymraeg a'r cenedligrwydd a ymgorfforwyd ynddi.

Fel yr eglura Ioan Williams yn gryno, 'ymdrech i adolygu'r myth hanesyddol [sef myth 'y werin'] yr oedd awdurdod Rhyddfrydiaeth wedi'i seilio arno' oedd *Gwaed yr Uchelwyr.*[16] Ac ymgeisiodd Saunders Lewis i chwalu'r myth hwnnw drwy lunio myth heriol newydd o'i wneuthuriad ef ei hun:

> Mynnai fod yr elfennau o drefn a thraddodiad yn y gymdeithas wledig Gymreig yn hanu o barhad yr hen fonedd yn hytrach nag o arucheledd cynhenid y werin. Ei ddadl oedd y byddai'r werin yn methu â chynnal traddodiadau'r genedl heb fod yna rywbeth i gyfryngu rhyngddi hi a'r hen gymdeithas a'i creodd.

Enghraifft o'r ideoleg hwnnw ar waith – ar ffurf stori afaelgar o ddramatig –yw *Gwaed yr Uchelwyr.* Fel sy'n hysbys ddigon, echel y ddrama yw diwedd trist y berthynas rhwng Luned Gruffydd a'i chariad Arthur Gwynn. Luned yw disgynnydd hen deulu uchelwrol Y Plas, teulu o dirfeddianwyr cynhenid Gymreig a gollodd eu statws a'u heiddo yn yr ail ganrif ar bymtheg drwy wrthod plygu i'r drefn newydd a mynnu parhau'n ffyddlon i'r hen frenhiniaeth a'r Hen Ffydd Gatholig. Uchafbwynt y ddrama yw'r olygfa pan yw Luned, ar ôl ychydig o wamalu, yn gwrthod ildio i'w theimladau drwy briodi ei chariad, Arthur Gwynn, mab y tirfeddiannwr cefnog sy'n berchen Isallt, ei chartref hi a'i rheini. Teulu gwerinol cyffredin oedd teulu Arthur ganrif ynghynt, ond daeth dyrchafiad cymdeithasol sylweddol i'w ran ar ôl i'w aelodau ddechrau cydymffurfio â threfn orthrymus y dosbarth canol Seisnig. A pham fod Luned yn gwrthod priodi etifedd y teulu, Arthur? Nid oherwydd balchder tras

[16] Williams, Ioan (2000) (gol.), *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn*, Cyfrol II (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 43. (*DSL*)

yn bennaf, ond am nad yw'n fodlon perthyn drwy briodas i ddosbarth estron sydd, yn ei barn hi, yn gormesu ei phobl. Ac nid cefnu ar serch yn unig y mae Luned yn ei wneud drwy weithredu fel hyn. Er loes calon i'w mam, y mae hefyd yn dewis bwrw heibio'r cyfle olaf oll i achub hen aelwyd ei theulu, am y bydd ei gweithred yn sicr o elyniaethu'r perchennog a fedrai gipio Isallt yn ei hôl o afael y tenant newydd. Merch ei thad yw Luned, ac yn ei safiad digyfaddawd ar dir anrhydedd llinach a lles cenedl, clywir adlais o'i ddatganiad cynt di-ildio yntau:

> Fedraf fi ddim gwerthu fy mhobl, a rhoi pob Cymro'n llechgi. (*DSL*, t. 80)

Er mwyn tanlinellu urddas moesol y gwerthoedd uchelwrol y mae Luned yn eu cynrychioli, y mae Saunders Lewis yn cyferbynnu ei chymhellion dros gilio i'r Taleithiau â chymhellion Arthur Gwynn pan yw'n cynnig ei phriodi ac yn datgan ei barodrwydd i ffoi dros y dŵr yn ei chwmni i gychwyn bywyd newydd. Ond ofer yw ei gynnig. Gofyn iddi anghofio'n llwyr am Gymru y mae Arthur, etyb Luned, 'ac anghofio yw bradychu'. Yn hytrach, y mae'n mynnu trin ei hymadawiad am y Taleithiau fel gweithred o hunanaberth ac o alltudiaeth fwriadus. 'Dyna'r gwahanieth rhyngom ni', meddai wrth Arthur:

> Pobl newydd ydych chi, yn edrych ymlaen o hyd, yn gobeithio. Ond yr wyf fi yn perthyn i bobl hen iawn; mae fy ngwreiddiau i yn ôl yn y gorffennol. A 'does gan obaith ddim rhan yn fy null i o fyw ... Mi wnaf fy mywyd yn allor i atgofion fy nghenedl. Mi fydda i'n lleian i'm gwlad. Ac fe fydd fy nheulu farw gyda mi, ond yn marw heb fradychu eu delfrydau na'u traddodiad. (*DSL*, t. 93)

Dyna ddatganiad, y mae'n ymddangos, sydd am gloi'r ddrama drwy roi pen ar y ddadl. Ond yna, ar y diwedd, dyma'r awdur yn sydyn yn mentro un cam herfeiddiol ymhellach. Oherwydd, wele Arthur yn tyngu wrth Luned ei fod am ei phriodi hi oherwydd ei fod e'n dymuno i'w fywyd yn y dyfodol ymgorffori'r union werthoedd y mae hithau mor benderfynol o'u gwarchod:

> Mi ddeuthum yma heno ... gan feddwl ymysgwyd yn rhydd o'r budreddi, y gormesu ar dlawd a gwan, yr ymgecru a'r gwarth. Mi freuddwydiais am noddfa gyda thi, am fyw yn gain ac yn fonheddig, yn deilwng ohonot. (*DSL,* t. 95)

A beth yw ymateb Luned i hyn? Mynna fod dyletswydd arno ef, fel hithau, i fod yn ffyddlon i'w gefndir, i'w deulu, ac i'w 'enedigaeth fraint'. Hynny yw, y mae'n rhaid i bobl o bob dosbarth ufuddhau i'w ffawd drwy fodloni ar fyw oddi mewn i drefn osod cymdeithas na ellir ei newid am ei bod yn cyfateb i drefn natur ei hun. Ni fyddai'n briodol i'r wrêng geisio cynefino o ddifri â'r gwerthoedd aruchel sy'n eiddo'n unig i ddosbarth y bonedd – y bendefigaeth

hynafol ddethol honno sydd, yr un fath â Luned ei hun wrth gwrs, â 'gwaed yr uchelwyr' yn llifo'n falch drwy ei gwythiennau. Yn y man digalon hwn, ymddengys fod Saunders Lewis wedi cyrraedd pen draw eithaf ei ddrwgamheuaeth gwaelodol o'r werin Anghydffurfiol Gymraeg ac o ddosbarth gweithiol y Gymru ddiwydiannol Saesneg fel ei gilydd. Ac er ei fod yn datgan ei edmygedd mawr o rinweddau tybiedig yr hen bendefigaeth Gymreig, y mae hefyd, ar yr un gwynt, yn gorfod cyfaddef nad yw'n bosibl bellach i weddillion y dosbarth hwnnw gynorthwyo Cymry'r presennol i godi'r hen wlad yn ei hôl. Ymddengys, felly, fod y genedl y tu hwnt i'w hachub.

Beth, felly, a wneir o'r clo syfrdanol hwn, sy'n gwbl groes, wrth gwrs, i'r modd cymodlon, cymharol obeithiol, y mae pob testun arall a astudiwyd yn yr erthygl hon yn ymdrin â'r berthynas rhwng Cymru Fu'r hen uchelwyr a'r Gymru werinol gyfoes? Ar yr wyneb, fe ymddengys fod Saunders Lewis wedi creu *impasse* llwyr o fwriad, drwy awgrymu nid yn unig nad yw'r Gymru sydd ohoni o werth yn y byd ond ymhellach nad oes modd dychmygu dyfodol amgen i Gymru chwaith. Ar ben hynny, mae'n ymddangos fod yr awdur wedi seilio'r diweddglo anobeithiol hwn ar y cysyniad o 'waed', gan faentumio'n bryfoclyd fod gwahaniaeth rhwng y naill ddosbarth a'r llall yn ffenomen fiolegol na ellir ei newid yn hytrach nag yn ffenomen gymdeithasol y medrir ei diwygio.

Hyd y gwelaf i, nid oes modd osgoi'r casgliadau enbyd o ddigalon ac enbyd o adweithiol hyn os mynnwn lynu wrth union destun y ddrama. Ond os cytunwn i edrych y tu hwnt i derfynau caeth y testun ei hun er mwyn chwilio am gyd-destun i'n goleuo ymhellach, yna byddai'n werth inni sylwi ar lythyr a ysgrifennwyd gan Saunders Lewis at ei arwr T. Gwynn Jones 'ar drothwy'r rhyfel cartref yn Iwerddon [pan] awgrymodd mai cymeriad pendefigaidd ei gyfaill oedd rhan o'r ysbrydoliaeth'.[17] Os gwir hynny, yna ystyr 'gwaed' yng nghyswllt *Gwaed yr Uchelwyr* yw 'cymeriad', neu 'anian'. As os felly, yna nid oes rhaid wrth 'berthynas waed' lythrennol â'r dosbarth uchelwrol cyn y gellir ymgorffori'r diwylliant pendefigaidd sydd, ym marn Saunders Lewis, yn gonglfaen amhrisiadwy cenedligrwydd y Cymry. Ymhellach, golyga nad yw tranc y diwylliant a'r cenedligrwydd hwnnw'n anorfod, fel yr awgrymir i bob pwrpas yng ngeiriau olaf Luned yn y ddrama.

Ond pam, felly, mabwysiadau metaffor ('gwaed') sy'n rhwym o fod yn gamarweiniol am ei fod yn seiliedig ar fywydeg ac yn awgrymu trefn anorfod natur ei hun yn hytrach na metaffor y mae ei ensyniadau *cymdeithasol* yn llawer mwy eglur? Ceir hyd i'r ateb, debygwn i, yn y corff o destunau sy'n ymdrin â gweddillion yr hen bendefigaeth Gymreig y tynnwyd sylw atynt yng nghorff yr erthygl hon. Ym mhob un o'r rhain, rhagdybir bod y broses o sicrhau parhad y gwerthoedd cymdeithasol a ddynodir gan fuchedd yr uchelwyr yn un weddol hawdd – dyna paham, er enghraifft, y dynodir y broses honno'n aml gan briodas sy'n pontio'r bwlch rhwng y dosbarth uchelwrol a'r dosbarth canol 'gwerinol' newydd sydd bellach yn rheoli Cymru. Eithr barn i'r gwrthwyneb yw barn Saunders Lewis. Cred ef yn ddiysgog mai proses anodd dros ben – mor anodd nes ei bod yn ymylu ar yr amhosibl – yw'r

---

[17] Chapman, T. Robin (2006), *Un bywyd o blith nifer: cofiant Saunders Lewis* (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 83. (*CSL*)

broses o adfer diwylliant dosbarth yr oedd ei werthoedd yn gwbl groes i werthoedd y Gymru newydd gyfoes. Dyna pam na fyddai'n briodol ei dynodi yn y ddrama drwy drefnu priodas rhwng Arthur Gwynn a Luned. Proses ydyw, yn wir, sy'n golygu mynd i eithafion wrth herio'r drefn osod gyda'r bwriad o'i dymchwel yn llwyr. Gweithred o hunanaberth yn unig a all obeithio cychwyn y fath chwyldro; dyna paham y mae *Gwaed yr Uchelwyr* yn mynnu gorffen drwy ddwyn sylw at hunanaberth Luned (er mai ofer, wrth gwrs, yw'r hunanaberth hwnnw). Felly, mae'n naturiol i Saunders Lewis edrych i gyfeiriad Iwerddon am batrwm i'w ddilyn, fel yr esbonia mewn llythyr pellach at T. Gwynn Jones:

> Byddaf yn fy nghashau fy hun ac yn ffieiddio fy nghenedl pan gymharwyf angerdd Iwerddon a difrawder ein cynadleddau ninnau. Ac eto, beth a wnawn ni? Y mae'n amhosibl cefnu ar ein gwlad, ei melltithio a gadael iddi. Dyna paham y sgrifennais 'Waed yr Uchelwyr' – ceisio egluro imi fy hun paham yr arhosaf yng Nghymru. (*CSL*, t. 83)

Esboniad eglur a chyflawn – neu felly y mae'n ymddangos tan i ni sylweddoli mai penderfyniad cwbl i'r gwrthwyneb i benderfyniad Luned a wnaed gan Saunders Lewis ei hun. Gyda golwg ar hynny, hwyrach y byddai'n dderbyniol i faentumio y bu ysgrifennu'r ddrama'n fodd iddo wahaniaethu'n glir rhwng cred lythrennol Luned taw dim ond y rheini â gwaed coch cyflawn yr uchelwyr yn eu gwythiennau a all ymddwyn yn bendefigaidd, a sylweddoliad yr awdur ei hun mai metaffor yn unig yw'r sôn am 'waed'. A chan fod ei edmygedd o T. Gwynn Jones wedi cyfrannu'n sylweddol at y sylweddoliad hwnnw, yna hwyrach na fyddai'n amhriodol i awgrymu ymhellach y gall fod perthynas wrthgyferbyniol awgrymog rhwng sefyllfa Luned yn *Gwaed yr Uchelwyr* a sefyllfa Arthur yn 'Ymadawiad Arthur'. Mi wnaf fy mywyd yn allor i atgofion fy nghenedl. Mi fydda i'n lleian i'm gwlad,' meddai Luned wrth baratoi i ymfudo. Ac wele eiriau T. Gwynn Jones am yr Afallon hwnnw sy'n disgwyl ei 'ymfudwr' ef:

> Yno y mae tân pob awen a gano,
> Grym, hyder, awch pob gwladgar a 'mdrecho
> Ynni a ddwg i'r neb fyn ddiwygio
> Sylfaen yw byth i'r sawl fyn obeithio;[18]

Ergyd y darn enwog hwn, wrth gwrs, yw mai adnodd ac nid dihangfa yw Afallon, am fod modd bob amser i drigolion Cymru gael at y gwerthoedd sanctaidd hynny a sicrheir yno a'u defnyddio er lles y genedl fodern.

Ni allai Saunders Lewis gymeradwyo awydd Luned, er y medrai gydymdeimlo i'r byw â hi, gan y bu ond y dim iddo yntau, ar un adeg, ddilyn yng nghamrau ei frawd drwy godi ei bac ac anelu at y Taleithiau. Un peth oedd i Luned wrthod priodi Arthur. Cydsyniai'r awdur

[18] Jones, T. Gwynn, 'Ymadawiad Arthur,' yn *Awdlau Cadeiriol Detholedig y Ganrif Hon 1900–1925* (Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol: Hugh Evans a'i Feibion), t. 52.

yn frwd â hynny am ei fod ef ei hun mor ddirmygus o'r gred a adlewyrchwyd, fel y gwelwyd eisoes yng nghynifer o nofelau'r cyfnod, fod modd pontio'r gagendor enfawr rhwng buchedd yr hen bendefigaeth a buchedd y werin yn hawdd drwy gyfrwng priodas. Ond peth arall yn llwyr oedd ei phenderfyniad i adael Cymru. Os oedd hynny'n weithred o hunanaberth, yna yr oedd hefyd yn weithred cenedl-ddinistriol, ym marn Saunders Lewis. Wedi'r cyfan, os am aberthu'r hunan er lles y genedl, yna dylid gwneud hynny yn null criw dewr gwrthgodiad y Pasg yn Iwerddon yn 1916.

Hwyrach, felly, y bu mynegi penderfyniad negyddol Luned yn *Gwaed yr Uchelwyr*, a deall fod yn rhaid ymbellhau oddi wrtho, yn fodd i Saunders Lewis ganolbwyntio ar benderfyniad cadarnhaol ei arwr T. Gwynn Jones, a ddynodir ar ddiwedd ei awdl fawr gan benderfyniad Bedwyr. Fel y cofiwn, y mae'n penderfynu, hyd yn oed yn ei ddirymder wedi colli Caledfwlch, i droi unwaith yn rhagor yn ei ôl a wynebu'r drin. Ac onid dyna a wnaeth Saunders Lewis ei hun weddill ei ddyddiau?